

CLWB DYDD LLUN (SION A SIÂN GYNT)

Mae'r clwb ond newydd ail-gychwyn ar ôl dwy flynedd o hoe yn sgil Covid, Rydym yn cwrdd am 2.00yp am gwpwl o oriau bob pedwerydd ddydd Llun o'r mis yn Y Pafiliwn ar gae'r ysgol. Rydym yn cwrdd yn anffurfiol am banded a sgwrs ac yn trefnu siaradwr gwadd o bryd i'w gilydd.

At hyn, mae gennym ni drip dydd yn ystod y flwyddyn ac rydym yn trefnu Cinio Nadolig. Yn ddiweddar bu inni logi bws mini a theithio i Ynys Môn am y dydd gan ymweld ag Amgueddfa Modur Tacla Taid, Safle Halen Môn, Canolfan Arddio Holland Arms a Pringles.

Mae croeso i unrhyw un ymuno gyda ni.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar ddydd Llun, Medi'r 26ain yna ddydd Llun, Hydref y 24ain.

John and Hazel

PARCIO AR Y PALMANT

Hoffwn ofyn i'r bobl hynny sy'n parcio ar y palmentydd am sicrhau bod digon o le i bramiau/bygis, plant bach ar feiciau a cherddwyr allu mynd heibio ar yr ochr tu mewn heb orfod camu i neu'n agos iawn i'r ffordd. Gan fynd ati i ystyried eraill gallwn atal damwain diangen!

Mae palmentydd y pentref megis meysydd parcio ar adegau, yn enwedig yn ystod y nosweithiau golau hyn lle mae pobl yn mwynhau mynd am dro bach hamddenol!

Gan berchennog busnes yn Nolwyddelan
sy'n dymuno aros yn ddienw.

LLYFRAU AR WERTH

Mae detholiad o nofelau clawr papur, llyfrau plant a chyfeirlyfrau ail law ar werth yn y Pafiliwn.

Cymraeg a Saesneg.

Mae blwch gonestrwydd yno.

Byddwn yn ddiolchgar iawn o unrhyw lyfrau sydd mewn cyflwr da. Cysylltwch gyda Gill Caldwell er mwyn trefnu eu casglu.

Be well nag ymgolli mewn llyfr.

